# DISGRIFIAD SWYDD

## Cydlynydd Prosiect LocalMotion Caerfyrddin

Yn gweithio: 3 diwrnod yr wythnos
Cyflog: £26,500 - £29,000 pro rata
Tymor Penodol: 3 blynedd
Yn adrodd i Reolwr LocalMotion Caerfyrddin gydag adroddiad llinell doredig i Brif Weithredwr Fiscal Host People Speak Up

**Ynglŷn a LocalMotion**

Mae LocalMotion yn rhwydwaith trwy'r Deyrnas Unedig o bartneriaethau ar sail lleoliad i frwydro yn erbyn achosion sylfaenol annhegwch cymdeithasol, amgylcheddol ac economaidd gyda rhwydweithiau yn Lincoln, Enfield, Torbay, Oldham a Middlesbrough. Caerfyrddin yw'r unig leoliad yng Nghymru.

Mae LocalMotion Caerfyrddin yn gweithio i archwilio'r themâu hyn trwy ddull diwylliannol. Rydym yn fudiad cyfiawnder cymdeithasol sy'n gweithio ar sail dulliau democrateiddio a grymuso o ddatblygu cymunedol. Rydym yn gweld diwylliant fel offeryn allweddol i lunio a chynllunio newid, meithrin cydweithio a dweud y gwir wrth rym.

Mae ein rhaglen yng Nghaerfyrddin wedi ei seilio ar ddwy system lywodraethu, Cynulliad Pobl Leol, sy'n cynnwys 13 o bobl leol brofiadol a'n Grŵp Craidd. Mae gennym hefyd rwydwaith eang o bartneriaid lleol, rhaglen gyhoeddus a melinau trafod sy'n archwilio ac ymchwilio i wahanol feysydd o'r seilwaith cymdeithasol economaidd. Mae ein gweithgareddau yn eang ac amrywiol ac felly maent ar sawl ffurf wahanol, o roi hyfforddiant, i arddio, i wledd gymunedol, neu hyd yn oed gyhoeddi adroddiadau, gwneud cynigion i gynnal digwyddiadau a symposiymau neu hyd yn oed gweithdy chwarae stryd.

People Speak Up sy'n gwesteio LocalMotion Caerfyrddin.
Byddwch yn cael eich cyflogi a dan gontract gan People Speak UP, os oes gennych unrhyw gwestiynau cysylltwch ag Eleanor Shaw (Prif Weithredwr) eshaw@peoplespeakup.co.uk

Am ragor o wybodaeth am ein rhaglen gweler localmotioncaerfyrddin.org @localmotioncarmarthen neu anfonwch e-bost at Owen Griffiths Rheolwr Cydweithredu a Newid yn Owen.Griffiths@localmotion.org.uk

**Ynglŷn â People Speak Up**

Mae People Speak Up (PSU) yn sefydliad cymunedol cymdeithasol, celfyddydol, iechyd, iechyd meddwl a llesiant sy'n cysylltu pobl ac yn creu cymunedau iachach

a mwy gwydn trwy chwedleua, gair ar lafar, ysgrifennu creadigol, gwirfoddoli, hyfforddiant, a chelfyddydau cyfranogol.

Rydym yn elusen gofrestredig (1193117) sy'n gweithio o Ganolfan Celfyddydau, Iechyd a Llesiant Llanelli yng nghanol tref Llanelli ac yn gweithio ar draws De Cymru.

Rydym yn cael ein cyllido gan Gyngor Celfyddydau Cymru, ymddiriedolaethau a sefydliadau a thrwy gomisiynau gan fyrddau iechyd ac awdurdodau lleol.

Darllenwch am PSU a'n prosiectau cyfredol www.peoplespeakup.co.uk

Gwyliwch fideo byr am bwy ydyn ni a'r hyn yr ydym yn ei wneud https://bit.ly/AboutPSU

**Y swydd**

**Disgrifiad Swydd/ Cydlynydd Prosiectau**

- Trefnu'r gwaith o gynllunio, gweithredu a gwerthuso Prosiectau LocalMotion.
- Trefnu prosiectau ac arwain ar gyfathrebu yn unol â gweithdrefnau'r Cwmni.
- Mynychu a chymryd rhan mewn cyfarfodydd perthnasol yn fewnol ac allanol i gynrychioli LocalMotion.
- Hwyluso digwyddiadau, sgyrsiau a gweithdai, ar eich pen eich hun ac fel rhan o dîm ehangach.
- Y gallu i gyfathrebu ar lafar ac yn ysgrifenedig yn Saesneg a'r Gymraeg.
- Cynnal ymchwil, cynllunio, gwaith gweinyddol a gwerthuso ar gyfer hwyluso prosiectau.
- Canfod eitemau ar gyfer hwyluso a digwyddiadau, gan gydymffurfio â gweithdrefnau caffael y Cwmni.
- Mynd i hyfforddiant perthnasol yn ôl y gofyn.
- Hyrwyddo gwerthoedd a gweledigaeth LocalMotion bob amser.
- Unrhyw dasgau eraill rhesymol sy'n cyd-fynd â'r swydd.

**Amdanoch chi**

- Angerddol am ddealltwriaeth groestoriadol o gyfiawnder cymdeithasol.
- Rhywun sy'n gallu cefnogi a chynorthwyo Rheolwr LocalMotion Caerfyrddin i gyflawni'r rhaglen.
- Cefndir diwylliannol a phrofiad o drefnu prosiectau, fel celfyddydau cymunedol, ymarfer cymdeithasol, ymgysylltu cymunedol.
- Gwybodaeth am sgiliau TG a chyfryngau cymdeithasol a chyfathrebu.
- Deinamig ac yn gallu gweithio gydag amrywiaeth eang o anghenion a chymunedau i gefnogi grymuso.
- Diddordeb a gwybodaeth am newid systemau, cydweithio blaengar, ymgysylltu cymunedol.
- Y gallu i weithio'n ymatebol ac ymateb i sefyllfaoedd sy'n dod i'r amlwg, terfynau amser ac arddulliau cyflwyno.
- Yn mwynhau trefnu, creu systemau a gweithio fel rhan o dîm a meddu sgiliau gweinyddol cryfion.

- Sgiliau cyfathrebu ysgrifenedig ac ar lafar rhagorol.
- Byddai'n fanteisiol bod yn siaradwr Cymraeg rhugl.

**I ymgeisio**

Anfonwch eich CV a llythyr esboniadol yn rhoi enghreifftiau i esbonio sut yr ydych yn bodloni manylebau'r swydd, at Eleanor Shaw eshaw@peoplespeakup.co.uk

Gellir cyflwyno ceisiadau yn y Gymraeg neu'r Saesneg.

**Dyddiad cau ar gyfer ceisiadau:**

**Dydd Llun 24 Chwefror am 10am**

Bydd ymgeiswyr ar y rhestr fer yn cael eu gwahodd i gyfarfod Rheolwr LocalMotion Caerfyrddin, Owen Griffiths, Prif Weithredwr People Speak Up Eleanor Shaw a'r Tîm am gyfweliad ar ddydd Gwener 14 Mawrth yng Nghaerfyrddin.

Rhowch wybod i ni ar eich cais os nad ydych yn gallu bod yno ar y dyddiad hwnnw.

Mae People Speak Up am fodloni'r nodau a'r ymrwymiadau yn ein polisi cydraddoldeb. Mae hyn yn cynnwys peidio â gwahaniaethu dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010, ac adeiladu darlun cywir o'r ymgeiswyr i'n helpu ni i annog cydraddoldeb ac amrywiaeth yn ein proses recriwtio.

Rydym yn gofyn i chi ein helpu i wneud hyn trwy lenwi'r ffurflen fonitro cydraddoldeb ac amrywiaeth ddienw hon. Mae llenwi'r ffurflen yn wirfoddol a bydd y wybodaeth a roddir yn cael ei chadw'n gyfrinachol a'i defnyddio ar gyfer monitro yn unig.

https://forms.gle/a4ZNhPhkrvbadR6e7